# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

<table>
<tr><th colspan="2">RHYBUDD O GYFARFOD</th><th colspan="2">NOTICE OF MEETING</th></tr>
<tr><td colspan="2">PWYLLGOR SAFONAU</td><td colspan="2">STANDARDS COMMITTEE</td></tr>
<tr><td colspan="2">DYDD IAU, 12 RHAGFYR 2013 am<br>2.00 o'r gloch</td><td colspan="2">THURSDAY, 12 DECEMBER 2013 at<br>2.00pm</td></tr>
<tr><td colspan="2">YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI</td><td colspan="2">COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI</td></tr>
<tr><td>Swyddog Pwyllgor</td><td colspan="2">Mrs. Mairwen Hughes<br>(01248) 752515</td><td>Committee Officer</td></tr>
</table>

**<u>Aelodau Annibynnol / Independent Members</u>**

Denise Harris Edwards
Islwyn Jones
Leslie Lord
Dilys Shaw
Michael Wilson

**<u>Yn cynrychioli'r Cyngor Sir / Representing the County Council</u>**

Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes
Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas

**<u>Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned / Representing the Town/Community Councils</u>**

William Raymond Evans
John Roberts

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

2 **COFNODION Y CYFARFOD** (Tudalennau 1 - 6)

Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Medi, 2013.
(PAPUR 'A')

3 **PROSIECT RHEOLI CWYNION - ADOLYGIAD ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 7 - 8)

Ystyried a thrafod y Dalen Cynllunio Tasg Archwilio – i'w gyflwyno gan y Swyddog Monitro (Papur Saesneg yn unig).
(PAPUR 'B')

4 **DATGANIADAU DIDDORDEB MEWN CYFARFODYDD A'R COFRESTR ANRHEGION A LLETYGARWCH** (Tudalennau 9 - 10)

Adroddiad gan y Rheolwr We Corfforaethol ynglyn â chynnydd o ran galluogi Aelodau i gwblhau'r cofrestrau ar lein.
(PAPUR 'C')

5 **GWEDDARLLEDU/PRESENOLDEB O BELL A CHEFNOGAETH TGCH I GYNGHORAU TREF A CHYMUNED** (Tudalennau 11 - 16)

I dderbyn adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.
(PAPUR 'CH')

6 **CWYNION AM YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 17 - 20)

**6A** Adroddiad gan y Swyddog Gofal Cwsmer ar ffurf matrics wedi'i ddiweddaru i Gynghorwyr Sir. Er gwybodaeth ac unrhyw gwestiynau.
(PAPUR 'D')

**6B** Adroddiad gan y Swyddog Gofal Cwsmer ar ffurf matrics wedi'i ddiweddaru i Gynghorwyr Tref a Chymuned. Er gwybodaeth ac unrhyw gwestiynau.
(PAPUR 'DD')

7 **PENDERFYNIADAU PANEL ARFARNU** (Tudalennau 21 - 44)

Adroddiad gan y Swyddog Gofal Cwsmer er gwybodaeth a Phapur gan y Cyfreithiwr – Llywodraethu Corfforaethol ar benderfyniadau diweddar. (PAPUR 'E')

8 **CYN-GOFRESTRU DIDDORDEBAU - DIWEDDARIADAU GAN GYNGHORWYR SIR** (Tudalennau 45 - 46)

I dderbyn adroddiad gan y Swyddog Gofal Cwsmer.
(PAPUR 'F')

9 **CYNGHORAU TREF A CHYMUNED - DIWEDDARIAD AR Y CÔD YMDDYGIAD AC YMRWYMIADAU** (Tudalennau 47 - 48)

I dderbyn adroddiad gan y Swyddog Gofal Cwsmer.
(PAPUR 'FF')

**10** **HYFFORDDIANT I AELODAU A CHYNGHORAU TREF A CHYMUNED - HYFFORDDIANT AR Y CÔD YMDDYGIAD**

**10A** I dderbyn adroddiad gan yr Uwch Swyddog Datblygu ar y sefyllfa gyfredol o ran hyfforddiant i Aelodau gan gynnwys cynnydd ar yr Adroddiadau Blynyddol Aelodau.
(PAPUR 'G' – **I DDILYN**)

**10B** I dderbyn adroddiad gan yr Uwch Swyddog Datblygu ar yr hyfforddiant a gynigwyd i'r Cynghorau Tref a Chymuned a'r adborth a dderbyniwyd.
(PAPUR 'NG' – **I DDILYN**)

**11** **CYNGHORAU TREF A CHYMUNED - HYFFORDDIANT AR Y CÔD YMDDYGIAD**
(Tudalennau 49 - 54)

I dderbyn adroddiad gan y Swyddog Monitro ar anghenion hyfforddiant yn y dyfodol yn dilyn y sesiynau ym mis Medi.
(PAPUR 'H')

**12** **ADOLYGIAD O'R COFRESTRAU** (Tudalennau 55 - 62)

I dderbyn adroddiad ac arweiniad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ac i drafod yr adolygiad blynyddol o'r cofrestrau.
(PAPUR 'I')

**13** **YMGYNGHORIAD Y PANEL ANNIBYNNOL AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL**
(Tudalennau 63 - 72)

I dderbyn adroddiad gan y Swyddog Monitro ynghlyn a chanlyniad yr ymgynghoriad a drafodwyd yn y cyfarfod ym mis Medi.
(PAPUR 'L')

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Medi 2013

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol**<br><br>Mr. Michael Wilson (Cadeirydd)<br>Mr. Islwyn Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Mrs. Denise Harris Edwards<br>Mr. Leslie Lord<br>Mrs. Dilys Shaw<br><br>**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref a Chymuned**<br><br>Y Cynghorydd John Roberts<br><br>**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir**<br><br>Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes<br>Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol) / Swyddog Monitro,<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ) (ar gyfer eitem 8),<br>Swyddog Gofal Cwsmer (BJ) (ar gyfer eitemau 3, 4, 5, 6 & 7),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH),<br>Cynorthwy-ydd Gweinyddol (SC). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Raymond Evans (yn cynrychioli'r Cynghorau Tref a Chymuned) |

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2013.

**3 CWYNION YNGHYLCH YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

**3A** Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad gan y Swyddog Gofal Cwsmer ar ffurf matrics wedi'i ddiweddar ar gyfer Cynghorwyr Sir.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**

**GWEITHREDU : Bydd y Swyddog Gofal Cwsmer yn cyflwyno diweddariad ar unrhyw ddatblygiadau pellach i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Safonau.**

**3B** Cyflwynwyd, er gwybodaeth – adroddiad gan y Swyddog Gofal Cwsmer ar ffurf matrics wedi'i ddiweddar ar gyfer Cynghorwyr Tref a Chymuned.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**

**GWEITHREDU : Bydd y Swyddog Gofal Cwsmer yn cyflwyno diweddariad ar unrhyw ddatblygiadau pellach i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Safonau.**

## 4 PENDERFYNIADAU'R PANEL DYFARNU

Cyflwynwyd a nodwyd – canfyddiadau Panel Dyfarnu Cymru o 1 Ebrill, 2011 i 29 Awst, 2013.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU : Bydd y Swyddog Gofal Cwsmer yn cyflwyno diweddariad ar unrhyw ddatblygiadau pellach i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Safonau.**

## 5 COFRESTRU DIDDORDEBAU YMLAEN LLAW – DIWEDDARIADAU GAN GYNGHORWYR SIR

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Swyddog Gofal Cwsmer ynghylch yr uchod.

Dywedodd y Swyddog Gofal Cwsmer fod 3 Chynghorydd Sir eto i ddiweddaru eu cofrestrau o ddiddordeb ymlaen llaw. Gofynnwyd sawl gwaith iddynt gwblhau'r ddogfen cofrestru diddordebau ymlaen llaw.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU :**

- **Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i anfon llythyr at y 3 Chynghorydd Sir yn gofyn iddynt ddiweddaru'r ddogfen cofrestru diddordebau ymlaen llaw o fewn 7 niwrnod i ddyddiad y llythyr;**
- **Anfon copi o'r ohebiaeth at Arweinydd Grŵp y Grwpiau Gwleidyddol y mae'r aelodau etholedig yn aelodau ohonynt;**
- **Bod yr aelodau etholedig yn cael eu galw i ymddangos gerbron y Pwyllgor Safonau oni fyddant yn cydymffurfio gyda'r cais;**
- **Bydd y Swyddog Gofal Cwsmer yn cyflwyno diweddariad ar unrhyw ddatblygiadau pellach i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Safonau.**

## 6 CYNGHORAU TREF A CHYMUNED – CÔD YMDDYGIAD AC YMGYMERIADAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Swyddog Gofal Cwsmer ar yr uchod.

Dywedodd y Swyddog Gofal Cwsmer fod yr holl Gynghorau Tref a Chymuned ac eithrio un wedi ymateb mewn perthynas â'r Côd Ymddygiad a'r Ymgymeriadau.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU :**

- **Derbyn diweddariad gan y Swyddog Gofal Cwsmer yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Safonau.**

## 7 CYNGHORAU TREF A CHYMUNED – HYFFORDDIANT AR Y CÔD YMDDYGIAD

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Swyddog Gofal Cwsmer ar yr uchod.

Dywedodd y Swyddog Gofal Cwsmer fod 34 o'r 40 Cyngor Tref/Cymuned wedi ymateb a bod 64 o Gynghorwyr wedi mynychu sesiynau addas mewn perthynas â'r Côd Ymddygiad.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod ef a'r Is-Gadeirydd ynghyd â Mrs. Dilys Shaw yn bwriadu mynychu'r Sesiynau Hyfforddiant. Dywedodd Mr Wilson y byddent yn pwysleisio'r angen i Gynghorau Tref a Chymuned fynychu'r hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad ac i raeadru'r hyfforddiant hwnnw yn eu Cynghorau Cymuned.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol) y gellid anfon llythyr at yr holl Gynghorwyr Tref/Cymuned yn bersonol yn hytrach na thrwy Glerc y Cynghorau Tref/Cymuned.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU : Yn dilyn y Sesiwn Hyfforddi a gynhelir ar ddiwedd y mis hwn, anfon llythyr at bob Cynghorydd Tref/Cymuned nad ydynt yn anfon cynrychiolwyr, yn dwyn sylw at bwysigrwydd mynychu hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad.**

## 8 RHEOLAU GWEITHDREFN CYNLLUNIO

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Dirprwy Swyddog Monitro/Uwch Gyfreithiwr (Cynllunio) ar gyfer argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith/Cyngor.

Dywedodd y Dirprwy Swyddog Monitro/Uwch Gyfreithiwr (Cynllunio) mai dyma oedd y newidiadau i'r Cyfansoddiad a oedd yn cael eu hargymell:-

Rheolau Gweithdrefn Cynllunio (Y Rheolau) :

***Newid 1*** (paragraff 3.5.3.15.5) – Yn y dyfodol, gall ceisiadau sy'n groes i bolisi a gyflwynir gan Gynghorwyr, Swyddogion perthnasol neu eu teuluoedd neu gyfeillion agos, yn hytrach na chael eu cyfeirio i'r Pwyllgor Cynllunio (y Pwyllgor) fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, gael eu gwrthod gan y Swyddogion Cynllunio dan y pwerau dirprwyedig ac yna, bydd adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor. Mewn achosion lle mae Swyddogion eisiau cymeradwyo ceisiadau sy'n groes i bolisi, yna dim ond y Pwyllgor fedr eu cymeradwyo;

***Change 2*** (adran 4.6) – Diwygio'r Rheolau i adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol a chymryd i ystyriaeth Adran 25 Deddf Lleoliaeth 2011. Bod Aelodau'r Pwyllgor yn cael caniatâd i fynegi barn ar rinweddau'r cais hyd yn oed cyn iddo ddod gerbron y Pwyllgor am benderfyniad ar yr amod fod y farn a fynegir ganddynt yn rhagdueddiad ac nid yn rhagbenderfyniad. Byddai hyn yn cynnwys caniatáu i Aelodau o'r Pwyllgor sydd hefyd yn Aelodau o Gynghorau Tref/Cymuned gymryd rhan mewn materion cynllunio mewn cyfarfodydd o'u Cynghorau Tref/Cymuned.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a'r argymhellion ynddo.**

**GWEITHREDU: Cyflwyno adroddiad y Dirprwy Swyddog Monitro/Uwch Gyfreithiwr (Cynllunio) i'r Pwyllgor Gwaith/Cyngor yn y man.**

## 9 YMGYNGHORIAD Y PANEL ANNIBYNNOL AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol)/Swyddog Monitro ar yr uchod.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol)/Swyddog Monitro fod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol. Eleni, roeddynt wedi bod yn ymweld ag Awdurdodau Lleol ynghyd â Chynghorau Tref/Cymuned i gael sylwadau ynghylch adroddiadau'r Panel Annibynnol a'r lwfansau a ganiateir. Yng nghyd-destun Aelodau Cyfetholedig yr Awdurdodau Lleol, mae'r PAGA wedi cyhoeddi Adroddiad Atodol Drafft ar daliadau ar gyfer ymgynghori yn ei gylch. Derbyniwyd gohebiaeth ddyddiedig 1 Awst 2013 gan y PAGA yn rhestru 4 o faterion y maent angen sylwadau Awdurdodau Lleol yn eu cylch cyn iddynt gyhoeddi Adroddiad Atodol terfynol.

- *(1) Mae amser rhesymol i baratoi cyn cyfarfod yn gymwys i gael ei gynnwys yn yr hawliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig a gall y Swyddog priodol wneud penderfyniad ynghylch faint o amser a fydd ei angen cyn y cyfarfod;*

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol)/Swyddog Monitro y gall Aelodau Cyfetholedig yn awr hawlio am amser i baratoi cyn cyfarfodydd ac y bydd y Swyddog priodol (Swyddog Monitro) yn penderfynu ar baratoadau o'r fath cyn y cyfarfod. Bydd angen gweithio allan amcangyfrif rhesymol o'r amser a fydd ei angen cyn anfon papurau at yr Aelodau Cyfetholedig mewn perthynas â pharatoi/darllen y gwaith papur.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd gael cyfarfod gyda'r Swyddog Monitro i benderfynu ar gyfnod amser rhesymol i baratoi ar gyfer cyfarfod oherwydd gall y gwaith papur ar gyfer rhai cyfarfodydd fod yn faith; yn benodol, mae'n cymryd mwy o amser i baratoi ar gyfer trafodaethau mewn Gwrandawiadau.

**PENDERFYNWYD cytuno mewn egwyddor i (1) uchod a chynnal trafodaethau pellach yn ganolog mewn perthynas â chytuno ar amser safonol ar gyfer paratoi am gyfarfodydd.**

- *(2) Gellir cynnwys amser teithio i ac o'r man cyfarfod yn y costau y mae Aelodau Cyfetholedig yn eu hawliau (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol);*

- *(3) Gall y Swyddog priodol yn yr awdurdod benderfynu ymlaen llaw a yw'r cyfarfod wedi'i raglennu ar gyfer diwrnod cyfan a bydd y ffi'n cael ei thalu'n seiliedig ar y penderfyniad hwn hyd yn oed os bydd y cyfarfod yn dod i ben mewn llai na phedair awr;*

- *(4) Mae cyfarfodydd y gellir talu ffioedd ar eu cyfer yn cynnwys Pwyllgorau a Gweithgorau eraill (gan gynnwys Grwpiau Tasg a Gorffen) neu unrhyw gyfarfodydd ffurfiol eraill y gofynnir i Aelodau Cyfetholedig eu mynychu. (Gellir hawliau costau eisoes am rag-gyfarfodydd gyda Swyddogion, Hyfforddiant a mynychu Cynadleddau).*

**PENDERFYNWYD cytuno i (2), (3) a (4) fel y cânt eu nodi uchod.**

Cyfeiriodd y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol)/Swyddog Monitro ymhellach at argymhelliad y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol y dylai Awdurdodau Lleol ystyried nifer uchaf yr achlysuron y gellir gwneud taliadau yn eu cylch i aelodau cyfetholedig bob blwyddyn. Argymhellodd y Swyddog y dylid cynnal adolygiad ym mis Chwefror/Mawrth.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor y dylai'r Swyddog Monitro gynnal adolygiad (yn seiliedig ar ffigyrau gwirioneddol) a gofyn iddi gyflwyno argymhellion yn y man a fydd yn addas i amgylchiadau'r Awdurdod hwn.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**GWEITHREDU :**

- **Bod argymhellion y Pwyllgor Safonau yn (1) i (4) yn cael eu hanfon i'r Prif Weithredwr fel y gall ymateb i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol.**

- **Gofyn i'r Swyddog Monitro baratoi argymhellion ar gyfer uchafswm nifer y dyddiau y gall Aelodau Cyfetholedig fynychu cyfarfodydd ym mhob blwyddyn.**

**10 DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DEMOCRATIAETH) (CYMRU) 2013**

Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol)/Swyddog Monitro mewn perthynas â'r uchod.

Dywedwyd bod y Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ar 25 Gorffennaf, 2012, wedi cytuno ar ymateb i'r ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Hyrwyddo Democratiaeth Leol. Nodwyd bod Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 bellach wedi cael Caniatâd Brenhinol.

Dygodd y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol) / Swyddog Monitro sylw'r Pwyllgor at Ran 5 y ddogfen sy'n cyfeirio'n benodol at faterion sy'n rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau:-

*55 Gwefannau Cynghorau Cymuned*
*58 Cofrestrau o Ddiddordebau Aelodau*
*59 Mynychu cyfarfodydd prif gynghorau o bell*
*68 Pwyllgorau Safonau ar y Cyd*
*69 Cyfeirio achosion sy'n ymwneud ag ymddygiad*

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU: Dim**

**11 CANIATÂD ARBENNIG CYFFREDINOL - INDEMNIADAU**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Swyddog Monitro ynghylch a ddylid rhyddhau caniatâd arbennig i'r holl Gynghorwyr Sir.

Rhoes yr Adroddiad Monitro adroddiad manwl i'r Pwyllgor ar y broses caniatâd arbennig a dywedodd fod gan y Pwyllgor Safonau'r disgresiwn i benderfynu a dyllid rhyddhau'r caniatâd arbennig y gofynnir amdano ai peidio ac i orfodi unrhyw gyfyngiadau fel sy'n briodol i amgylchiadau'r cais.

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Safonau'n rhyddhau caniatâd arbennig fel a ganlyn :-**

- **Petai'r angen yn codi, mae holl Aelodau cyfredol y Cyngor Sir drwy hyn yn cael caniatâd arbennig i ymddangos gerbron yr Is-Bwyllgor Indemniadau (neu ei olynydd, os o gwbl) er mwyn cyflwyno unrhyw gais y maent yn dymuno i'r Is-Bwyllgor ei ystyried yn unol â'r Polisi a'r Weithdrefn ar gyfer Indemniadau.**

- **Rhyddheir y caniatâd arbennig hwn dan Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatâd Arbennig) Cymru 2001 2.(d) and 2.(f).**

- **Bydd unrhyw Aelodau sy'n gweithredu ar yr hyn â'r hawl i gyflwyno eu cais ac ateb cwestiynau ond bydd yr Is-Bwyllgor yn cynnal unrhyw drafodaethau'n breifat.**

- **Nid yw'r caniatâd arbennig hwn yn rhagfarnu hawl unrhyw Aelod i ofyn am i'w cais gael ei drafod yn seiliedig ar y papurau'n unig nac ychwaith ar eu hawl i gael eu cynrychioli gan ymgynghorydd cyfreithiol.**

- **Bydd y caniatâd arbennig hwn, petai raid, yn ymestyn hefyd i unrhyw ystyriaeth gan y Pwyllgor Safonau yn unol â'u pwerau dan Orchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006 pan fydd gan unrhyw Aelod yr hawl i gyflwyno eu hachos yn bersonol gerbron y Pwyllgor Safonau, cyn i'r Pwyllgor ymneilltuo i sesiwn breifat i ystyried sut i weithredu ei bwerau statudol.**

- **Bydd y caniatâd arbennig hwn yn parhau ar gyfer y rheiny sy'n aelodau yn ystod tymor y Cyngor hwn.**

**12 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r isod :-**

"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod am yr eitem(au) isod oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni ym Mharagraff 12, Rhan 1 Atodlen 12A y ddeddf a'r Profion Budd y Cyhoedd ynghlwm"."

**13** **CANLYNIAD YMCHWILIAD GAN YR OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS MEWN PERTHYNAS Â CHWYN YN ERBYN CYNGHORYDD SIR**

Cyflwynwyd a nodwyd er gwybodaeth - canlyniad ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â chwyn yn erbyn Cynghorydd Sir.

**GWEITHREDU: Dim**

**14** **CANLYNIAD YMCHWILIAD GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS MEWN PERTHYNAS Â CHWYN YN ERBYN CYNGHORYDD CYMUNED**

Cyflwynwyd a nodwyd er gwybodaeth - canlyniad ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â chwyn yn erbyn Cynghorydd Cymuned.

**GWEITHREDU: Dim**

**15** **CYFARFOD/YDD RHWNG CADEIRYDD Y PWYLLGOR SAFONAU AC ARWEINYDDION GRWPIAU**

Rhoes y Cadeirydd adroddiad cryno ar y cyfarfodydd a gafodd gyda'r Arweinyddion Grwpiau.

Dywedodd fod trefniadau bellach wedi'u sefydlu y byddai ef fel Cadeirydd yn cael cyfarfodydd gyda'r Arweinyddion Grwpiau bedair gwaith y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU: Dim**

**MR. MICHAEL WILSON**
**CADEIRYDD**

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

INTERNAL AUDIT TEAM / TIM ARCHWILIO MEWNOL

# INTERNAL AUDIT ASSIGNMENT PLANNING SHEET

| | |
|---|---|
| **Organisation name:** | **Anglesey County Council** |
| **Periodic plan date:** | Ref. 1917.2013/14 |
| **Auditable area:** | Corporate Complaints Procedure |

## OBJECTIVES, RISKS AND CONTROLS

| | |
|---|---|
| Objective of the area under review: | The Council complies with its Corporate Concerns and Complaints Policy and therefore deals effectively with the concerns and complaints of its customers. |
| Risk description: | The Council does not deal effectively with concerns and complaints missing the opportunity to learn from mistakes and increasing the risk of reputational damage. |
| Audit objective: | To evaluate the adequacy of risk management and control within the system and the extent to which controls have been applied, with a view to providing an opinion. |

## ADDITIONAL MANAGEMENT CONCERNS

Management has informed that there is little evidence of 'concerns' as detailed in the CCP being recorded and actioned by departments.

## SCOPE OF THE REVIEW

| | |
|---|---|
| Areas for consideration: | Compliance with the requirements of the Council's Corporate Concerns and Complaints Policy. |
| Limitations to the scope: | The review will be limited to the operation of the Council's Corporate Concerns and Complaints Policy and will be based on complaints received in 2013-14 to date.<br>Limited testing will be carried out to ensure that concerns and complaints have been dealt with in line with the Policy requirements.<br>Our work does not provide any guarantee against material errors, loss or fraud or provide an absolute assurance that material error, loss or fraud does not exist. |
| Audit tool: | Compliance Audit |
| Audit approach: | These audits test only for compliance with controls, and do not seek to form an opinion on the design of controls in place. |

## REQUIRED DOCUMENTS

| To enable us to commence our fieldwork on the agreed start date, we will require access to the following information or records at the start of the first day of the audit: |
|---|
| • Copy of Concerns and Complaints Policy;<br>• Access to records of concerns and complaints held centrally and within departments;<br>• Copies of reports concerning concerns and complaints;<br>• Minutes of meetings at which records of concerns and complaints have been presented. |

## RESOURCES

| | |
|---|---|
| Organisation sponsor: | Lynn Ball - Head of Function - Legal and Administration;<br>Beryl Jones - Customer Care Officer |
| Auditors: | John Fidoe - Audit Manager;<br>Eurwen Williams - Senior Internal Auditor |
| Audit start date: | 16 December 2013 |
| Fieldwork completion date: | 17 January 2014 |

## AGREEMENT OF AUDIT SCOPE

| | |
|---|---|
| Prepared by: | John Fidoe - Audit Manager |
| Date: | 11 November 2013 |
| Reviewed by: | Eurwen Williams - Senior Internal Auditor |
| Date: | 11 November 2013 |
| Agreed by (client sponsor): | |
| Date: | |

CYNGOR SIR YNYS MON/ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | Pwyllgor Safonau |
| DYDDIAD: | 02 Rhagfyr 2013 |
| TEITL YR ADRODDIAD: | Adrodd ar gyhoeddi Cofrestrau Statudol ar-lein. |
| ADRODDIAD GAN: | Arweinydd Tîm Gwasanaethau Ar-lein |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | I adrodd yn ôl i'r Pwyllgor. |

1. Cofrestr Safonol o Ddiddordebau

   Mae'r Gofrestr Safonol o Ddiddordebau wedi bod ar gael ar-lein drwy'r system e-ddemocratiaeth Modern.Gov ers dechrau mis Ionawr 2013. Rhwng Mai - Mehefin 2013, derbyniodd pob aelod etholedig hyfforddiant un-i-un ar sut i ddiweddaru'r fersiwn ar-lein. Mae'r holl aelodau'n cyhoeddi eu Cofrestr Safonol o Ddiddordebau ar-lein. Rhoddir cefnogaeth gan y Tîm Gwasanaethau Ar-lein.

2. Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch

   Derbyniodd yr holl Aelodau hyfforddiant un-i-un gan y Tîm Gwasanaethau Ar-lein ym mis Mai 2013 a hysbyswyd hwy bod y Pwyllgor Safonau wedi gofyn iddynt lenwi'r ffurflen i mewn ar-lein fel y byddai cofrestr gyflawn o roddion a lletygarwch ar gael i'r cyhoedd.

   Mae'r aelodau ar hyn o bryd yn rhestru'r cyfan o'u rhoddion a lletygarwch gyda'r Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor sy'n cadw cofrestr ysgrifenedig. Nid oes unrhyw aelod wedi cysylltu â'r Tim Gwasanaethau Ar-lein am hyfforddiant pellach.

3. Cofrestr o Ddiddordebau a Ddatganwyd mewn Cyfarfodydd

   Mae'r Pwyllgor Safonau wedi gofyn i Aelodau unigol lenwi eu diddordebau eu hunain a ddatganwyd mewn cyfarfodydd ond nid yw hyn yn dechnegol bosibl ar hyn o bryd trwy'r system Modern.Gov.

   Mae'r Gofrestr o Ddiddordebau a ddatganwyd mewn cyfarfodydd yn cael ei chyhoeddi ar hyn o bryd drwy'r system Modern.Gov wedi i'r cofnodion gael eu cadarnhau, a thrwy hynny ganiatáu i'r cyhoedd chwilio am ddatganiad o ddiddordeb gan aelodau unigol mewn unrhyw bwyllgor, ar unrhyw ddyddiad. Bydd y wybodaeth yn cael ei rhoi i mewn gan y Swyddogion Pwyllgor, Gwasanaethau Pwyllgor.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | **12 RHAGFYR 2013** |
| **TEITL:** | **GWEDDARLLEDU CYFARFODYDD A MYNYCHU O BELL** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH INTERIM Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD / RHEOLWR TGCh** |
| **AELOD PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES** |

## 1. Cefndir

1.1 Mae gweddarlledu cyfarfodydd yn gysylltiedig â'r darpariaethau ym Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2011 i gryfhau democratiaeth leol; y bwriad yw cryfhau strwythurau a gwaith llywodraeth leol yng Nghymru ar bob lefel a sicrhau bod Cynghorau lleol yn ymestyn allan ac yn ymgysylltu gyda phob sector o'r gymuned y maent yn eu gwasanaethu. Fodd bynnag, nid yw gweddarlledu yn ofyniad deddfwriaethol ond mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi hyn yn gryf.

## 2. Sefyllfa gyfredol Awdurdodau Cymru

2.1 Ar hyn o bryd, mae rhai Cynghorau yng Nghymru yn gweddarlledu cyfarfodydd y Cyngor gan gynnwys:

- Mae **Caerdydd** yn gweddarlledu cyfarfodydd y Cyngor yn unig (cael ei letya gan Public-i)
- Mae **Sir Gaerfyrddin** yn gweddarlledu cyfarfodydd y Cyngor yn unig (cael ei letya gan Public-i)
- Mae **Powys** wedi defnyddio Public-i ar gyfer cyfarfodydd sydd o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd.
- Mae **Awdurdodod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** yn gweddarlledu y cyfan o'u prif gyfarfodydd gan ddefnyddio system a ddarparwyd gan Public-i am gyfnod arbrofol o 18 mis a chyda chyllid o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

## 3. Sefyllfa'r Cyngor

3.1 Fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 1 Gorffennaf 2013, mae Llywodraeth Cymru yn awr wedi cynnig grant o £40,000 i bob Cyngor i gynorthwyo gyda'r gwaith o hyrwyddo democratiaeth leol ac ymgysylltiad gyda'r cyhoedd. Pwrpas y cyllid yw galluogi Cynghorau "i wneud trefniadau penodol i weddarlledu cyfarfodydd y cyngor gan gynnwys mynychu cyfarfodydd y cyngor o

bell a chynorthwyo cynghorau cymuned i gyhoeddi gwybodaeth ar y rhyngrwyd ac i sefydlu pwynt cyswllt ar y rhyngrwyd". Mae cyllid ychwanegol o £20,000 wedi ei neilltuo i gynorthwyo Cynghorau Cymuned i sefydlu gwefannau. Mae'r arian hwn wrthi'n cael ei ddosbarthu i'r Cynghorau Cymuned ar hyn o bryd.

3.2 Mae amod ynghlwm wrth y cyllid sef bod rhaid i'r Awdurdod weddarlledu o leiaf un cyfarfod (cyfarfodydd) yn ystod 2013/14 a darparu gwasanaeth mynychu o bell. Nid oes unrhyw sicrwydd o gyllid grant ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

**4. Mynychu o Bell**

4.1 Yn unol â Mesur llywodraeth Leol Cymru 2001, rhaid i awdurdodau lleol sefydlu trefniadau i Aelodau gymryd rhan mewn cyfarfodydd o bell. Nid yw'r gofyniad hwn wedi ei weithredu eto ond mae'n bosibl y daw i rym yn ystod Gwanwyn 2014. Derbyniwyd canllawiau drafft ar gyfer mynychu o bell i bwrpas ymgynghori a rhagwelir y bydd y canllawiau terfynol yn cael eu cyhoeddi yn o fuan.

4.2 Bydd angen diwygio Rheolau Sefydlog y Cyngor unwaith y daw Adran 4 y Ddeddf i rym i gynnwys ac i alluogi darpariaeth o ran mynychu o bell.

4.3 Rhydd y canllawiau drafft rywfaint o hyblygrwydd o ran caniatáu i bob awdurdod benderfynu ar y math o gyfarfodydd y gellir eu mynychu o bell a sut y bydd hyn yn gweithio. Yn y cyngor a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, mater i'r Awdurdodau lleol yw penderfynu sut i symud ymlaen gyda hyn ac i ba raddau. Bydd y dull hwn yn cwrdd â thelerau'r grant. Mae Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i arbrofi gyda mynychu o bell. Mae mynychu o bell o leoliad megis llyfrgell neu hyd yn oed ystafell arall yn Swyddfeydd y Cyngor yn opsiwn realistig ar gyfer ardal megis Ynys Môn a byddai'n ein galluogi i gydymffurfio gyda gofynion y grant. Mae defnyddio cyfleuster cynadleddau fideo bwrdd gwaith yn cael ei ystyried i'r pwrpas hwn.

**5. Gweddarlledu**

5.1 Byddai gweddarlledu yn caniatau i gyfarfodydd y Cyngor fod ar gael i bobl edrych arnynt ar y rhyngrwyd drwy gyfrwng cyfryngau ffrydio. Byddai'r wefan yn caniatau i'r cyhoedd edrych ar gyfarfodydd yn fyw neu'n ddiweddarach ar y wefan drwy gyfrwng archif, y cyfan y bydd y gynulleidfa ei angen yw dyfais gyda rhyngwyneb cyswllt rhyngrwyd ac mae systemau rheoli Modern.gov yn cael eu hystyried i hwyluso ymgysylltiad.

5.2 At ei gilydd, mae'r Cynghorau sy'n gweddarlledu yn dweud bod nifer y bobl sy'n gwylio'r cyfarfodydd yn fyw yn uwch na nifer y bobl sy'n mynychu cyfarfodydd a bod llawer mwy o bobl yn gwylio deunydd archif na'r nifer sy'n gwylio yn fyw.

5.3 Byddai'r offer yn cynnwys system gyfrifiadurol gyda chyfres o gamerâu wedi eu sefydlu yn y Siambr sydd â ffocws awtomatig ar yr Aelod sy'n siarad pan fydd y botwm ar ei feicroffon / meicroffon yn cael ei bwyso.

6.0 **Manteision**

6.1 Mae nifer o fanteision i hyrwyddo democratiaeth leol drwy weddarlledu:

- Gwylio cyfarfodydd yn fyw a all fod yn ddefnyddiol i bobl sy'n cael anhawster teithio i  fynychu cyfarfodydd neu y byddai'n well ganddynt wylio o leoliad arall

- Ailchwarae cyfarfodydd unwaith y maent wedi cael eu cynnal a all fod yn ddefnyddiol pan mae amser neu leoliad y cyfarfod yn anghyfleus

- Chwilio am ac edrych ar siaradwyr penodol neu eitemau rhaglen

- Llywodraethiant ac atebolrwydd tryloyw

- Gwell ymgysylltiad gyda dinasyddion yn arbennig felly'r genhedlaeth iau

- Gwell dealltwriaeth o'r broses ddemocrataidd, er enghraifft, deall penderfyniadau cynllunio

- Cwrdd â gofyniad Mesur Llywodraeth Leol Cymru o ran dwyn y cyhoedd i mewn i'r broses Sgriwtini

- Anogaeth ar gyfer safonau uchel o ran presenoldeb ac ymgysylltiad aelodau a'u hymddygiad mewn cyfarfodydd

- Dull effeithiol o gyfathrebu i swyddogion ac aelodau eraill wybodaeth a phenderfyniadau

- Oherwydd nad yw nifer o swyddogion y cyngor yn cael cyfle yn aml i fynychu neu arsylwi cyfarfodydd ffurfiol o'r cyngor, mae gweddarlledu'n gyfle gwerthfawr i fwy o swyddogion edrych ar gyfarfodydd y cyngor a'r broses ddemocrataidd a'i deall a gallai gweddarlledu (a chyfarfodydd archif) hefyd fod yn rhan ddefnyddiol o gynefino a hyfforddi swyddogion

- Cyfleoedd i aelodau ddysgu o arsylwi eu cymheiriaid a rhoi gwybodaeth i ddarpar ymgeiswyr am eu swyddogaeth o ran annog adnewyddiad democrataidd

**7. Goblygiadau o ran Adnoddau**

7.1 Cafwyd trafodaethau anffurfiol gyda chyflenwyr blaenllaw er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r cynigion, y costau cysylltiedig â ph'un a yw gweddarlledu yn opsiwn ymarferol ai peidio.  Mae costau arwyddol ar gyfer gwasanaeth a reolir yn awgrymu y byddai'r grant yn cyllido cynllun peilot 2 flynedd ar gyfer datrysiad wedi ei letya yn seiliedig ar gostau blynyddol oddeutu £18k y flwyddyn ond mae hyn yn ddibynnol ar nifer o ffactorau (e.e. nifer yr oriau o weddarlledu, nifer y camerâu a pham mor soffistigedig yw'r caledwedd a ddarperir).

7.2 Costau arwyddol yn unig yw'r rhain ac maent yn cynnwys cefnogaeth a hyd at 90 awr o weddarlledu bob blwyddyn.  Mae hyn yn seiliedig ar weddarlledu 4 o gyfarfodydd y Cyngor bob blwyddyn, 12 o gyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith a 12 o gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio.

7.3 Efallai yr hoffai'r aelodau roi barn ar y graddau y dylai gweddarlledu cyfarfodydd neu i gyfyngu gweddarlledu e.e. i gyfarfodydd pwyllgor penodol fel rhan o'r cynllun

peilot.  Byddai hynny'n cael effaith ar y costau. Ymgynghorir ar hyn o bryd gydag Arweinwyr y Grwpiau ar yr agwedd hon.

7.4 Argymhellir datrysiad gweddarlledu wedi ei letya oherwydd bod hyn yn cynnwys gwasanaeth uwchraddio offer.

7.5 Y tu hwnt i'r cyfnod o 2 flynedd, byddai angen cyllid refeniw oddeutu £15k y flwyddyn am ddatrysiad wedi ei letya petai'r Cyngor yn penderfynu parhau gyda gweddarlledu.

**8. Staffio ac Aelodau**

8.1 Byddai angen adnoddau staffio i baratoi ar gyfer bob cyfarfod i sefydlu'r offer i recordio a siecio'r cysylltiadau i'r darparwr cyn y cyfarfod, bwydo'r dogfennau perthnasol i'r dudalen ar y wefan cyn y cyfarfod, a sicrhau bod yr offer yn gweithio'n iawn yn ystod y cyfarfod.  Yn dilyn y cyfarfod, byddai'n rhaid rhoddi'r recordiad yn yr archif ar safle'r Cyngor gyda'r holl faterion perthnasol a chyswllt amser ac ati ar gyfer y cyfarfod.  Bydd angen i staff yn y Gwasanaethau Democrataidd gael hyfforddiant i ymgymryd â'r swyddogaethau ychwanegol hyn mewn ymgynghoriad gyda Staff yr Uned TGCh.

8.2 Yn ychwanegol at hyn, efallai y bydd pwysau ychwanegol ar yr Uned Gyfieithu i roi gwasanaeth mewn cyfarfodydd a threfnu i gyfieithu trafodaethau i bwrpas gweddarlledu.

8.3 Mae cyflwyno gweddarlledu yn debygol o gael effaith sylweddol ar Aelodau a byddai'n rhai buddsoddi cryn ymdrech er mwyn sicrhau eu bod yn ymrwymo i hyn ac i oresgyn unrhyw bryderon neu anawsterau a all fod ganddynt.  Gallai gweddarlledu hefyd gael effaith ar lywodraethu cyfarfodydd y cyngor. Mae darparwyr gwasanaethau gweddarlledu yn cynnwys hyfforddiant fel rhan o'r gweithrediad a byddai'n rhaid teilwrio hynny i gymryd i ystyriaeth bryderon ac anghenion yr aelodau.  Byddai angen hefyd rhaglen hyfforddiant barhaus a byddai costau ynghlwm wrth hynny yn arbennig petai hyn yn cael ei ymestyn i gynnwys hyfforddiant cyfryngau a sgiliau cyflwyno.

**9. Risgiau**

9.1 Y risg sy'n gysylltiedig â pheidio â gosod unrhyw system yw y gall y Cyngor gael ei hun mewn sefyllfa lle byddai wedi colli cyfle i wella mynediad i'r cyhoedd a hynny, o bosib, ar adeg pan fydd Cynghorau eraill yng Nghymru yn symud ymlaen.

9.2 Yn ddiamheuol, mae Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau yn gryf i ddarparu'r cysyniad hwn.

9.3 Mae'r brif risg sy'n gysylltiedig â'r system yn ymwneud â chyllido, yn arbennig felly ar adeg pan mae cyllidebau'r Cyngor dan bwysau aruthrol.  Mae cyllid grant ar gael ar gyfer cynllun peilot dwy flynedd a tuag at ddiwedd y cynllun peilot, argymhellir y dylid cynnal adolygiad i sefydlu a yw gweddarlledu cyfarfodydd wedi bod yn llwyddiannus o ran hyrwyddo democratiaeth leol ac ymgysylltiad cyhoeddus.  Wedi ystyried yr adolygiad, gallai'r Cyngor benderfynu a ddylai barhau gyda'r gwasanaeth hwn i ddarparu gwasanaeth gweddarlledu yn y dyfodol.

## 10. Argymhellion

10.1 Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn argymell i'r Cyngor:

- Symud ymlaen i Weddarlledu cyfarfodydd am gyfnod arbrofol o 2 flynedd er mwyn defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru gan ystyried y sylwadau ym mharagraff 7.3 ar y graddau y byddir yn gweddarlledu.

- Rhoddi awdurdod i Bennaeth Interim y Gwasanaethau Democrataidd a'r Rheolwr TGCh bwrcasu'r offer angenrheidiol yn seiliedig ar ddatrysiad wedi ei letya.

- Nodi'r sefyllfa o ran mynychu o bell fel y manylir ar hynny yn adran 4 uchod.

**Huw Jones**
**Pennaeth Interim y Gwasanaethau Democrataidd**
**16/09/13**

**Adroddwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd 1.10.13 ac i'r Cyngor Sir ar 10.10.13**

This page is intentionally left blank

**CWYNION I AC YMHOLIADAU GAN YR OMBWDSMON – "O" -YNGLŶN Â CHYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN – MAI 2008 YMLAEN**

**COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – MAY 2008 ONWARDS**

**DIWEDDARIAD / UPDATED– 14 Tachwedd 2013 /14 November 2013**

**(diweddariad diwethaf / last update 12.8.13)**

**PWYLLGOR SAFONAU – 12.12.13 – STANDARDS COMMITTEE**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Disgrifiad Byr o'r Gŵyn**<br><br>**Short Description of Complaint** | **Adrannau'r Côd**<br><br>**Sections of the Code** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** | **Datblygiad Pellach**<br>**Further Development** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Cynghorydd Sir / County Councillor | Prif Weithredwr / Chief Executive | (i) 017339<br>(ii) 201304118 | 29.10.13 | Delio gyda mater pan roedd yna fuddiant personol ac o bosib bod hwnnw wedi mynd yn fuddiant sydd yn rhagfarnu / Dealing with a matter when there was a personal interest which may then have become a prejudicial interest. | Rhan / section 10(2)(c ) (i) 14(1)(a), (c), (d) and (e) | 01.11.13 – llythyr gan yr Ombwdsmon yn nodi ei fod wedi derbyn cwyn ac yn rhoddi ystyriaeth i'r mater. / letter from the Ombudsman noting that a complaint has been received and that the matter is being considered. | **27.11.13 –** yr "O" am ymchwilio / The "O" to investigate |
| 2. Cynghorydd Sir / County Councillor | Cynghorydd Cymuned / Community Councillor | (i) 017368<br>(ii) 201304372 | 13.11.13 | Dwyn anfri ar y swydd neu'r awdurdod, methiant I ddangos parch at eraill a bwlio ac harasio eraill. / Brining the office or authority into disrepute, failure to show respect for others and bullying and harassment of others. | Rhan/ Secion 6(1)(a) , 4 (b) & 4 (c) | 13.11.13 - llythyr gan yr Ombwdsmon yn nodi ei fod wedi derbyn cwyn ac yn rhoddi ystyriaeth i'r mater. / letter from the Ombudsman noting that a complaint has been received and that the matter is being considered | |

This page is intentionally left blank

**CWYNION I AC YMHOLIADAU GAN YR OMBWDSMON – "O" -YNGLŶN Â CHYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF**

**COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS**
**Diweddariad – 11.11.13 - Update**

**Pwyllgor Safonau- 12 RHAGFYR 2013 / Standards Committee 12 DECEMBER 2013**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Disgrifiad Byr o'r Gŵyn**<br><br>**Short Description of Complaint** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** | **Datblygiad Pellach**<br>**Further Development** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Cymunedol / Community Councillor<br><br>LLanbadrig | Aelod o'r Cyhoedd / Member of the Public | (i) 017352<br>(ii) 201304286 | 08.11.13 | Ymddwyn heb awdurdod a methiant i ddatgan diddordeb / Acting without authority and failure to declare an interest. | Disgwyl clywed os yw'r "O" am ymchwilio / Waiting to hear if the "O" is going to investigate**.** | **15.11.13** - ddim yn ymchwilio / Not investigating |

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Safonau |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 12 Rhagfyr 2013 |
| **Teitl yr Adroddiad** | Canfyddiadau Panel Dyfarnu Cymru 1 Ebrill 2011 i 1 Tachwedd 2013 |
| **Adroddiad Gan** | Swyddog Gofal Cwsmer |
| **Pwrpas yr Adroddiad** | Rhoi gwybodaeth am rai o'r materion y deliodd Panel Dyfarnu Cymru â hwy |

**1.0 Cyflwyniad a Chefndir**

Sefydlwyd Panel Dyfarnu Cymru o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac y mae iddo ddwy swyddogaeth statudol:-

- Ffurfio tribiwnlysoedd achos neu achosion dros dro i ystyried adroddiadau gan yr Ombwdsmon yn dilyn ymchwilio i honiadau bod aelod wedi methu â chydymffurfio gyda chôd ymddygiad ei awdurdod; ac
- Ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau awdurdod lleol eu bod wedi torri'r côd ymddygiad.

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r penderfyniadau wnaed gan y Panel Dyfarnu rhwng 1 Ebrill 2011 a 1 Tachwedd 2013 ac fe'i bwriadwyd fel crynodeb ffeithiol o'r materion sy'n dod gerbron y Panel Dyfarnu. Ni fydd yn cymryd lle'r adroddiad sy'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor pan fydd cwyn yn ymwneud â Chyngor Sir Ynys Môn wedi bod gerbron y Panel Dyfarnu.

**2.0 Penderfyniadau wnaed rhwng 1.4.11 a dyddiad yr adroddiad hwn**

18.4.11 - Y Cyng. A James, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
18.5.11 - Y Cyng. M. Calver, Cyngor Cymuned Maenorbŷr
06.06.11 - Y Cyng. A. Brown, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil
29.06.11 – Y Cyng. J. Adams-Lewis, Cyngor Sir Ceredigion
12.07.11 – Y Cyng. P Rogers, Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn
27.10.11 – Cyn Cyng. F. Wildgust – Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
27.10.11 - Y Cyng. P Seabourne – Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
27.10.11 - Y Cyng. D Thomas, Dinas a Sir Abertawe
14.11.11 – Cyn Gyng. L. Bailey – Cyngor a Sir Abertawe
14.11.11 – Y Cyng. I. Tuck, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil
03.01.12 - Y Cyng. K. Armstong-Braun, Cyngor Tref Saltney
18.6.12 - Y Cyng. M. Eckersley, Cyngor Sir Ddinbych
19.6.12 – Y Cyng. B. Durkin, Cyngor Sir Ynys Môn

22.8.12 – Y Cyng. A. Brown, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil
5.11.12 – Y Cyng. A. Moss, Cyngor Cymuned Llantrisant
16.11.12 – Y Cyng H. Thomas, Cyngor Sir Ynys Môn
05.04.13 – Y Cyn Gyng Whitby, Cyngor Cymuned Coedpoeth
15.05.13 – Y Cyn Gyng John Cooper, Cyngor Cymuned y Mwmbwls
18.07.13 - Y Cyn Gyng P. Heesom, Cyngor Sir Y Fflint County Council - **Diweddariad**
12.07.13 - Y Cyn Gyng David Evans, Cyngor Sir Ceredigion - **Newydd**

Gweler y Tabl isod sy'n rhoi crynodeb o'r materion y deliwyd â hwy a'r canlyniadau.

| **Enw** | **Honiadau** | **Darganfyddiadau** | **Canlyniad** |
|---|---|---|---|
| Y Cynghorydd A. James – Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen<br>(27.4.11)<br>APW/007/2010-011/CT | Methiant i ddatgan diddordeb a defnyddio'i swydd yn amhriodol pan yn gwneud rhoddion i fudiadau lleol o dan Lwfansau Cynlluniau Bychan y Cyngor | Ar sail y canfyddiadau ffeithiol, casglodd y Tribiwnlys Achos, trwy benderfyniad unfrydol, y bu methiant i gydymffurfio gyda Chôd Ymddygiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | Torri'r Côd – Casglodd y Tribiwnlys Achos yn unfrydol fod cyfnod atal yn briodol –<br><br>Atal am fis |
| Y Cynghorydd M. Calver – Cyngor Cymuned Maenorbŷr<br>(25.5.11)<br>**Apêl**<br>APW/009/2010-011/A | Apêl yn erbyn Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Benfro iddo dorri Côd Ymddygiad Cyngor Cymuned Maenorbŷr ac y dylai gael ei geryddu ac y dylai ddilyn hyfforddiant ar y Côd.<br><br>Honiadau gwreiddiol:-<br>Cyhoeddi cofnodion drafft heb ganiatâd.<br>Sylwadau ar wefan yn cyfateb i fwlio a hambygio ac/neu fethu dangos parch ac ystyriaeth.<br>Datgelu gwybodaeth gyfrinachol (yn cynnwys | Cadarnhaodd y Panel Dyfarnu benderfyniad y Pwyllgor Safonau - ei fod wedi torri Côd Ymddygiad Cyngor Cymuned Manobier | Ystyriodd y Tribiwnlys Apêl yr holl ffeithiau, cyflwyniadau a sylwadau a wnaed a'i ganllawiau ei hun ynghylch cosbau mewn tribiwnlysoedd apêl. Nid oedd y Tribiwnlys Apêl yn gweld unrhyw reswm da yma i ymyrryd gyda'r gosb a bennwyd gan y Pwyllgor Safonau<br><br>NODYN –<br>Dymchwelwyd penderfyniadau'r Tribiwnlys Apêl a'r Pwyllgor Safonau yn dilyn Adolygiad Barnwrol yn yr Uchel Lys - Cyf [2012] EWHC 1172 |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| | ariannol) nad oedd eto'n gyhoeddus.<br>Gwneud sylwadau oedd yn dwyn anfri ar ei swydd ac/neu'r Cyngor. | | |
| Y Cynghorydd A. Brown – Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil<br><br>APW/006/2010-011/CT A APW/010/2010-011/CT | Defnyddio'r rhyngrwyd i gyhoeddi sylwadau amhriodol.<br>Camddefnyddio adnoddau'r Cyngor.<br>Torri polisïau rhyngrwyd y Cyngor.<br>Methu dangos parch ac ystyriaeth i eraill.<br>Datgelu llythyr cyfrinachol.<br>Anfon e-byst amhriodol.<br>Cyhoeddi datganiad oedd yn fwriadol gamarweiniol yn y wasg a thrwy hynny ddwyn anfri ar y swydd cynghorydd a'i awdurdod | Nid oedd y Tribiwnlys Achos yn ystyried, yn yr holl amgylchiadau, ac yn unol â'i ganllawiau cosb, bod yna unrhyw ffactorau a allai'n rhesymol gyfiawnhau anghymwyso. Ystyriodd y Tribiwnlys Achos a fyddai atal yn gosb briodol, gan gyfeirio at ei ganllawiau ei hun sy'n nodi y gall atal aelod fod yn briodol lle nad yw'r amgylchiadau yn ddigon difrifol i gyfiawnhau anghymwyso, ond yn ddigon difrifol i olygu bod angen rhoi sicrwydd i'r cyhoedd a phwysleisio i'r ymatebydd ddifrifoldeb y mater a'r angen i sicrhau na fyddai'r fath beth yn digwydd eto | Torri'r Côd:<br>Penderfynodd y Tribiwnlys Achos yn unfrydol y dylid atal y Cynghorydd rhag gweithredu fel aelod o'r Cyngor am gyfnod o naw mis |
| Y Cynghorydd J. Adams-Lewis – Cyngor Sir Ceredigion<br>APW/007/2009-010/CT | Methiant i weithredu'n wrthrychol ac er budd y cyhoedd wrth ystyried cais cynllunio mewn ymweliad safle gyda Phwyllgor | Casglodd y Tribiwnlys Achos for y Cynghorydd wedi gweithredu mewn modd y gallai aelod o'r cyhoedd ystyried, yn rhesymol. fod gwrthdaro diddordeb rhwng ei rôl fel | Torri'r Côd:<br>Atal yr Aelod rhag bod yn aelod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu ac Is-gadeirydd y Cyngor am gyfnod o 3 mis |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| | Rheoli Datblygu'r Cyngor ar 28/8 a 10/9 2008 a methu datgan diddordeb personol a mynd allan o'r cyfarfodydd hynny. | Cynghorydd lleol a'i rôl yn gwneud penderfyniad ar ran yr Awdurdod | |
| Y Cynghorydd P. S. Rogers - Cyngor Sir Ynys Môn - Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru<br>APW/011/2010-011/CT | **Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru** – Ceisio cynnal sgwrs yng nghyswllt cwyn yn erbyn un o'i etholwyr.<br>Anfon e-bost yn beirniadu'r ffordd yr oedd yr Heddlu'n delio gydag ymchwiliad.<br>Arddangos ymddygiad gormesol a bygythiol tuag at 3 swyddog o'r Heddlu yn ystod ei ymweliad â Gorsaf Heddlu Caergybi.<br>Ceisio dylanwadu ar gyfeiriad ymchwiliad yr Heddlu.<br><br>**Cyngor Sir Ynys Môn** - Methu â dangos parch ac ystyriaeth i eraill a bwlio a hambygio, datgelu | Dim yn fodlon fod Côd Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru yn berthnasol yn yr achos hwn – ni roddodd y Cynghorydd Rogers yr argraff erioed ei fod yn gweithredu fel cynrychiolydd Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru<br><br>Methiant i ddangos parch ac ystyriaeth – Torri'r Côd<br>Bwlio ac Aflonyddu – Heb dorri'r Côd | Wedi torri'r Côd a'r tribiwnlys yn ystyried mai cerydd oedd y gosb briodol |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| | gwybodaeth gyfrinachol am iechyd cyd Gynghorydd.<br>Gellid yn rhesymol gyfrif ei ymddygiad fel un oedd yn dwyn anfri ar ei swydd neu ar yr awdurdod. | Heb dorri'r Côd<br><br>Wedi torri'r Côd | |
| Cyn Gynghorydd F. Wildgust – Cyngor Bwrdeistref Sir Torfaen<br>APW/001/2011-012/CT | Gwneud honiadau di-sail mewn datganiadau i'r wasg dyddiedig 13, 15 a 22 Ionawr 2011 am y Cyngor a'i uwch swyddogion ac ailadrodd yr honiadau mewn e-bost i Brif Weithredwr y Cyngor a dangos amarch llwyr at y Swyddog Monitro a'r Prif Weithredwr yn bersonol ac at eu huwch swyddogion | Ail Achos Tribiwnlys - cynhaliwyd y cyntaf ar 24.2.11<br>Rhoddodd y Tribiwnlys Achos sylw difrifol iawn i anghymwyso'r aelod a byddai wedi gwneud hynny oni bai bod y Cynghorydd Wildgust wedi ymddiheuro i'r swyddogion dan sylw, wedi cydnabod ei fod bellach yn deall pwysigrwydd y Côd Ymddygiad a glynu wrtho a'i fod wedi addo [i'r Tribiwnlys Achos] i wneud hynny ac i gymedroli ei ymddygiad a gweithredu mewn ffordd sydd ddim yn elyniaethus yn y dyfodol. Fodd bynnag, o gofio'r addewid a wnaed ganddo ac er mwyn rhoi cyfle i'r Cynghorydd Wildgust gymedroli ei ymddygiad, penderfynodd y tribiwnlys Achos | Roedd penderfyniad y Tribiwnlys Achos Cyntaf yn glir y byddent wedi ei anghymwyso oni bai ei fod wedi addo cydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad, i gymedroli ei ymddygiad, i ymddiheuro a pheidio â gweithredu mewn modd gelyniaethus yn y dyfodol<br><br>Anwybyddodd Mr Wildgust yr addewidion hynny ar y diwrnod cyntaf ar ôl y gwrandawiad Tribiwnlys Achos Cyntaf<br><br>Mae'r Tribiwnlys Achos yn ystyried bod ymddygiad Mr Wildgust yn haeddu ei anghymwyso ac y dylid **ei anghymwyso o fod yn gynghorydd am gyfnod o 3** |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| | | atal y Cynghorydd Wildgust am 12 mis, y gosb yn dod i rym ar unwaith | **blynedd gyda'r gosb honno'n dod i rym ar unwaith** |
| Y Cynghorydd P. Seabourne – Cyngor Bwrdeistref Sir Torfaen<br>**Apêl**<br>APW/012/2010-011/A | Apêl yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau.<br><br>Wedi methu a chadw cofnodiadau cywir o'i benodiadau a'i ddiddordebau yn y gofrestr statudol.<br>Methiant i ddatgan diddordeb personol ac un sy'n rhagfarnu ar 27 Tachwedd 2008 wrth gwblhau Cais Cynllun Bychan yn gofyn am i daliad o £200 gael ei wneud i Glymblaid Torfaen Access pan oedd yn Gadeirydd ar y Glymblaid.<br>Methiant i ddatgan diddordeb personol ar 22 Medi 2009 wrth gwblhau cais cynllun bychan yn | Yn dilyn y penderfyniad gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau, cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod y Cynghorydd Seabourne wedi camarwain y Pwyllgor pan ddywedodd fod y wybodaeth am ei ddiddordebau ar y wefan. Mewn gwirionedd, nid dyna'r achos ar adeg gwrandawiad y pwyllgor oherwydd na chafodd y wybodaeth ei rhoi ar y wefan tan 14 Hydref 2009.<br><br>Cyfyngwyd yr Apêl i'r gosb a bennwyd ac nid y casgliadau. | Roedd y Tribiwnlys yn fodlon, ar sail y wybodaeth a roddwyd gan y Cynghorydd Seabourne, nad oedd wedi camarwain y pwyllgor ac nad oedd, un ai mewn gohebiaeth neu fel arall, wedi awgrymu bod y wybodaeth ynghylch ei ddiddordebau ar ei wefan cyn 14 Hydref 2009. Ar y sail honno, roedd y Tribiwnlys yn fodlon nad oedd unrhyw ffactor gwaethygol ychwanegol i'w gymryd i ystyriaeth.<br><br>Derbyniodd y Tribiwnlys bod y Cynghorydd Seaboune wedi diweddaru ei Ddatganiad o Ddiddordebau ar 14 Hydref 2009 a bod hynny wedi altro'r cydbwysedd o ffactorau lliniaru a gwaethygol a ystyriwyd gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau. Fodd bynnag, nid oedd hwn yn newid mor sylweddol fel ei |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| | gofyn am i daliad o £500 gael ei wneud i i Ysgol Gyfun Fairwater pan oedd yn un o'r llywodraethwyr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol. Ymhellach, mewn perthynas â'r rhodd i Ysgol Gyfun Fairwater, methiant i ddatgan diddordeb personol a diddordeb sy'n rhagfarnu oherwydd bod ei wraig yn Gadeirydd y llywodraethwyr yn yr Ysgol ar adeg gwneud y rhodd. | | fod yn lleihau difrifoldeb yr achosion o dorri'r Côd ac, o'r herwydd, yr angen i geryddu. Cadarnhawyd y penderfyniad y Pwyllgor Moeseg a Safonau - roedd y Tribiwnlys yn fodlon, yn yr amgylchiadau, fod cerydd yn gosb briodol. |
| Y Cynghorydd D. Thomas – Cyngor Sir a Thref Abertawe<br>**Apêl**<br>APW/002/2007-08/A | Apêl yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau.<br><br>Methu â dod i benderfyniad ar sail rhinweddau'r amgylchiadau pan mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio ar 20 Gorffennaf 2006 a thrwy hynny, fethu | Roedd y Tribiwnlys Apêl yn unfrydol y bu methiant i gydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad.<br><br>Ystyriwyd bod "having regard" yn golygu derbyn cyngor o'r fath yn absenoldeb rhesymau da i beidio â gwneud hynny - ni roddwyd unrhyw fath resymau | Cynnal penderfyniad y Pwyllgor Safonnau.<br><br>Atal am 1 mis a cherydd |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| | rhoi sylw i gyngor Swyddog Monitro'r awdurdod. | | |
| Cyn Gynghorydd L. Bailey - Cyngor Dinas a Sir Abertawe<br><br>APW/001/2007-08/CT | Gwneud defnydd amhriodol o un o gyfrifiaduron y Cyngor i bwrpasau preifat trwy lawr lwytho delweddau amhriodol ac anfon llythyrau i bapur newydd lleol, gan ddweud mai aelodau'r cyhoedd oedd wedi'u hanfon.<br>Wrth wneud hynny, yn dod ag anfri ar swydd Aelod.<br>Methiant i ddangos parch a rhoi ystyriaeth i eraill trwy fethu ystyried effaith ei weithrediadau ar weithwyr y Cyngor oedd wedi gweld y delweddau ar y cyfrifiadur wedi hynny.<br>Patrwm o gamymddwyn cyson yn dangos methiant i hyrwyddo egwyddorion y Côd trwy arweinyddiaeth ac esiampl. | Roedd y Tribiwnlys yn ystyried bod yr achosion o dorri'r Côd mor ddifrifol fod anghymwyso yn briodol ac y gellid cyfiawnhau cyfnod o dros 3 blynedd | Torri'r Côd<br>Anghymwyso am 2 flynedd a 6 mis – gostwng hyd yr anghymhwyso oherwydd ffactorau lliniarol |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Y Cynghorydd I Tuck - Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil<br><br>APW/004/2007-08/CT | Ymddygiad mewn ymweliad safle i ganfod ffeithiau ar ran Pwyllgor Cynllunio a Rheoleiddio'r Cyngor ar 11 Hydref 2006 – gellid yn rhesymol ei gyfrif fel ymddygiad oedd yn dwyn anfri ar swydd Aelod ac ar y Cyngor. Defnyddio ei safle fel aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a Rheoleiddio yn amhriodol i sicrhau mantais iddo'i hun a'i dad yn y cyfarfod ar 11 Hydref 2006. Heb ddatgan diddordeb personol yn y cyfarfod a heb fynd allan o'r cyfarfod. | Casgliad bod methiant i gydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad ym mhob un o'r 3 achos.<br><br>Roedd y Cynghorydd wedi ymddiswyddo ac nid oedd yn dymuno sefyll am swydd gyhoeddus eto | Torri'r Côd<br>Anghymwyso am 12 mis |
| Y Cynghorydd K Armstong-Braun, Cyngor Tref Saltney<br><br>APW/008/2010-11/CT | Torri paragraffau 4(b), 5 (a), 6(1)(a) a 8(a) y Cod Ymddygiad<br><br>Ei fod wedi ymddwyn yn amhriodol yn ystod | Canfu'r Tribiwnlys Achos fod y Cynghorydd Armstrong-Braun, pan | Torri'r Côd<br>Atal am 12 mis |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
| --- | --- | --- | --- |
| | cyfarfodydd y Cyngor gan achosi gofid i berson arall; | oedd yn Faer, wedi gwneud sylwadau amhriodol ynghylch Saltney ac wedi gwrthod tynnu ei sylwadau'n ôl wedyn, gohiriodd y cyfarfod o'r cyngor ar 9 Gorffennaf 2008 yn groes i benderfyniad y Cyngor Tref; penderfynodd ddwyn y cyfarfod ar 10 Medi 2008 i ben yn gynamserol, roedd o'n ddifrïol ac yn anghwrtais gyda Chlerc y Cyngor Tref a'r Dirprwy Faer yn y cyfarfod rhaglen a gynhaliwyd ar 9 Medi 2008 | |
| | Wedi methu datgelu ei lwfans Maerol | Canfu'r Tribiwnlys Achos fod y Cynghorydd Armstrong-Braun wedi anwybyddu cyngor Clerc y Cyngor Tref mewn perthynas â'i gyfrifoldeb i ddatgelu ei lwfans Maerol yn unol â Rheol Sefydlog 40 rheolau gweithdrefn y Cyngor fel y cânt eu nodi yn y llythyr dyddiedig 20 Tachwedd 2009 a anfonwyd ato gan Glerc y Cyngor Tref. | |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| | Wedi datgelu gwybodaeth gyfrinachol ac o ran Cyngor Tref Saltney a Chyngor Sir Y Fflint, roedd ei ymddygiad wedi dwyn anfri ar ei swydd ac ar yr awdurdodau. | Canfu'r Tribiwnlys Achos fod y Cynghorydd Armstrong-Braun wedi ysgrifennu llythyr at Bennaeth yr Ysgol Uwchradd leol yn groes i benderfyniad grŵp tasg y Cyngor Tref bod eu cyfarfodydd ar 14 a 28 Mawrth yn rhai cyfrinachol ac nad oedd unrhyw faterion a drafodwyd yn y cyfarfodydd hynny i fod i gael eu rhannu gyda thrydydd partïon. | |
| Y cyn-Gynghorydd M. Eckersley<br>Cyngor Sir Ddinbych<br><br>APW/004/2011-012/CT | Torri paragraffau 4(a), 4(b) a 6(1)(a) y Côd Ymddygiad.<br><br>Bod y cyn-Gynghorydd Eckersley, mewn cyfarfod o'r Grŵp Cydraddoldebau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2010, yn ystod trafodaeth ynghylch is-ddeddf hynafol sy'n caniatáu crogi unigolion am siarad Cymraeg yng Nghaer ar ôl 9.00pm, wedi dweud *"maybe we should take a load of Welsh Muslims to Chester to test this out"* ("y methiant | Dyfarnodd y Tribiwnlys achos yn unfrydol mewn perthynas â'r ddau honiad fod y cyn-Gynghorydd Eckersley wedi methu â chydymffurfio gyda Chôd Ymddygiad Cyngor Sir Ddinbych fel a ganlyn:<br><br>Mae paragraff 4(b) y Côd Ymddygiad yn dweud "bod rhaid dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill". | Mae'r Tribiwnlys Achos yn ystyried y dylid rhoi cerydd i'r cyn- Gynghorydd Eckersley am ei ymddygiad. |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
| --- | --- | --- | --- |
| | honedig cyntaf");<br><br>a<br><br>Bod y cyn-Gynghorydd Eckersley, mewn cyfarfod o'r Grŵp Cydraddoldebau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2010 wedi dweud "Adolf Hitler had the right idea, and that they should be got rid of out of the country" gan gyfeirio at sipsiwn a theithwyr ("yr ail fethiant honedig"); | Dyfarnodd y Tribiwnlys Achos yn unfrydol hefyd na thorrodd y cyn-Gynghorydd Eckersley baragraffau 4(a) a 6(1)(b) Côd Ymddygiad Cyngor Sir Ddinbych. | |
| Y Cynghorydd B. Durkin<br><br>Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>APW/002/2011-012/CT | Ymosod yn eiriol ac yn sarhaus dro ar ôl tro ar y Cyfarwyddwr Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd a'r Swyddog Monitro ar y pryd (Miss Ball) a Mr David Bowles, y cyn Reolwr-Gyfarwyddwr Dros Dro; a<br><br>Trwy wneud ceisiadau niferus am wybodaeth gan roi pwysau gormodol a baich sylweddol ar Swyddog | Dyfarnodd y Tribiwnlys fod y Cynghorydd Durkin, oherwydd ei weithredoedd tuag at Miss Ball, yn arbennig y iaith yr oedd yn ei defnyddio, wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth a bod ei weithredoedd mewn perthynas â Miss Ball hefyd yn cyfateb i fwlio a hambygio. Casglodd y Tribiwnlys bod gwneud honiadau difrifol di-sail dro ar ôl tro yn erbyn Miss Ball, ac | Casglodd y Tribiwnlys Achos yn unfrydol y dylid atal y Cynghorydd Durkin rhag gweithredu fel Aelod o Gyngor Sir Ynys Môn am gyfnod o 12 mis neu, os yw hynny'n fyrrach, am weddill ei gyfnod fel Cynghorydd, a hynny o 17 Mai 2012. |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| | Gwybodaeth Gorfforaethol y Cyngor (Mr Pritchard). | awgrymu ei bod yn anonest ac yn llwgr, yn tanseilio ei hawdurdod a'i sefyllfa ac yn cyfateb i fwlio a hambygio.<br><br>Casglodd y Tribiwnlys nad oedd yr hyn a wnaeth y Cynghorydd Durkin yn cyfateb i fwlio na hambygio Mr. Bowles fel swyddog uwch, a bod Mr Bowles wedi delio'n gadarn gyda'r Cynghorydd Durkin. Fodd bynnag, casglodd y Tribiwnlys bod gwneud yr honiadau di-sail yn y cyfryngau cyhoeddus fod Mr. Bowles yn anonest ac yn llwgr yn fethiant i ddangos parch ac ystyriaeth tuag at Mr. Bowles a hynny'n groes i baragraff 4(b) y Côd.<br><br>Ni chasglodd y Tribiwnlys fod y Cynghorydd Durkin wedi torri'r Côd mewn perthynas â'i ymddygiad tuag at Mr. Pritchard. Nid oedd y Tribiwnlys yn derbyn bod y Côd yn berthnasol yn yr achos yma ac er bod y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn trin pawb fel aelodau o'r cyhoedd | |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| | | o bersbectif y Ddeddf, roedd y Cynghorydd Durkin yn gwneud y ceisiadau yn rhinwedd ei swydd fel Cynghorydd ac i ddibenion gwleidyddol. Fodd bynnag, wrth ystyried y dystiolaeth roedd y Tribiwnlys yn fodlon fod y Cynghorydd Durkin wedi gwneud ei geisiadau'n gwbl briodol a bod ei lythyrau at Mr. Pritchard yn briodol o ran eu cynnwys a'u cywair.<br><br>Casglodd y Tribiwnlys hefyd fod gweithredoedd y Cynghorydd Durkin hefyd yn torri paragraff 6(1)(a) y Côd. Casglodd y Tribiwnlys fod honiadau di-sail,mynych, cyhoeddus a difrifol y Cynghorydd Durkin yn erbyn Uwch Swyddogion y Cyngor yn siŵr o danseilio'r Awdurdod a dwyn anfri arno. Yn ogystal, roedd yr iaith a ddefnyddiwyd gan y Cynghroydd Durkin a'r ffaith fod y Tribiwnlys wedi casglu nad oedd ei gymhellion yn ddiffuant yn dwyn anfri ar y swydd. | |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| Y cyn-Gynghorydd A. Brown<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful<br><br>APW/002/2012-013/CT | Yn gyson ac yn fwriadol wedi camgynrychioli ei swydd fel Cynghorydd yn dilyn iddo gael ei atal gan Dribiwnlys blaenorol, mewn e-byst, blogiau, llythyrau ac erthyglau i'r cyfryngau a rhaglen "ffonio i mewn" ar y radio mewn cyfnod o 3 mis yn dilyn casgliad y Tribiwnlys.<br><br>Yn fwriadol ac yn gyson wedi camgynrychioli casgliadau'r Tribiwnlys blaenorol;<br><br>Camgynrychioli'r Cyngor a'i bolisïau; a<br><br>Er gwaethaf canlyniad y Tribiwnlys ar 13 Ebrill 2013, roedd wedi | Ystyriodd y Tribiwnlys Achos holl ffeithiau'r achos. Rhoddodd sylw i'w ganllawiau ynghylch sancsiynau sy'n nodi y gall anghymwyso fod yn briodol mewn amgylchiadau lle byddid, mae'n debygol, wedi atal yr aelod pe bai'n parhau i fod yn aelod o'u hawdurdod. Fodd bynnag, yn yr achos hwn ystyriwyd anghymwyso oherwydd bod y cyn-Gynghorydd Brown wedi methu â glynu wrth y Côd yn fwriadol ac wedi torri'r Côd yn gyson. Roedd yna nifer o ffactorau gwaethygol:<br><br>a) Torri'r Côd tro ar ôl tro<br>b) Gweithredoedd yn dwyn anfri ar y Cyngor<br>c) Natur fwriadol y gweithredoedd<br>d) Herio'r ymchwiliad a'r dyfarniad i'r pen<br>e) Ceisio beio eraill yn annheg<br>f) Dyfalbarhau gyda phatrwm o ymddygiad<br>g) Methiant i gymryd sylw o gyngor neu rybuddion priodol | Casglodd y Tribiwnlys Achos yn unfrydol y dylid anghymwyso'r cyn-Gynghorydd Brown am gyfnod o 3 blynedd rhag bod yn aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful neu unrhyw awdurdod perthnasol arall o fewn ystyr Deddf Llywodraeth Leol 2000, a hynny ar unwaith. |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| | cyhoeddi gwybodaeth gyfrinachol, a hynny o fwriad, ac wedi methu â gofyn am gyngor gan yr awdurdodau priodol. | | |
| Y Cynghorydd. A. Moss<br>Cyngor Cymuned Llantrisant<br>APW/001/2012-013/CT | Torri paragraff 6(1)(a) y Côd Ymddygiad | Y penderfyniad heb ei gyhoeddi hyd yma | Torri'r Côd: Gwahardd am 6 mis. |
| Y Cynghorydd Hefin Thomas<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>**Apêl**<br><br>APW/003/2012-013/A | Ym mis Mehefin 2012, cyflwynwyd apêl i Banel Dyfarnu Cymru ar ran y Cynghorydd Thomas yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn y dylid gwahardd y Cynghorydd Thomas am gyfnod o 6 mis am dorri paragraff 6(1)(a) y Côd Ymddygiad. | Mae'r Tribiwnlys Apêl yn fodlon bod y Pwyllgor Safonau wedi rhoi pob cyfle i'r Cynghorydd Thomas gadarnhau ei liniariad yn ystod gwrandawiad y Pwyllgor Safonau. Mae'r Tribiwnlys Apêl wedi rhoi sylw i'r lliniariad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Safonau a'r Tribiwnlys Apêl. Mae'r Tribiwnlys Apêl yn fodlon bod y Pwyllgor Safonau wedi cydnabod yn briodol y lliniariad a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Thomas ond bod ffactorau eraill yn gorbwyso'r lliniariad hwnnw, gan gynnwys hygrededd y Cynghorydd Thomas. | Mae'r Tribiwnlys Apêl yn ystyried nad yw'r gwaharddiad 6 mis a osodwyd gan y Pwyllgor Safonau yn anghymesur o gofio amgylchiadau'r achos.<br><br>Penderfynodd y Tribiwnlys Apêl yn unfrydol i gymeradwyo penderfyniad Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn y dylid gwahardd y Cynghorydd Thomas am gyfnod o 6 mis. |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| | | Mae'r Tribiwnlys Apêl yn fodlon bod y Pwyllgor Safonau wedi gweithredu'r egwyddor cymesuredd ac wedi cymryd i ystyriaeth yr holl ffeithiau wrth benderfynu ar y gosb i'r Cynghorydd Thomas. | |
| Y cyn-Gyng. Whitby<br><br>Cyngor Cymuned Coedpoeth<br><br>APW/003/2011-012/CT<br><br>APW/005/2012-013/CT<br><br>APW/007/2012-013/CT | Roedd y cyn-Gynghorydd Whitby wedi torri Côd Ymddygiad y Cyngor Cymuned uchod oherwydd ei ymddygiad ac yn sgil ei arestio am darfu ar yr heddwch mewn gwrthdystiad yn Lerpwl ar 4 Rhagfyr 2012, methiant i ddangos parch ac ystyriaeth tuag at Glerc y Cyngor Cymuned, ei ymddygiad, ei arestiad a'i garchariad wedyn am beidio â chydweithredu gyda'r awdurdodau perthnasol yn codi o brotest yn Llys Sirol Penbedw ar 7 Mawrth 2011; a'i ddiffyg cydweithrediad gydag ymchwiliad yr Ombwdsmon i'r honiadau hyn. | O'r herwydd, dyfarnodd y Tribiwnlys Achos yn unfrydol fod y cyn-Gynghorydd Whitby, wrth dorri'r Côd Ymddygiad a'i agwedd annerbyniol a'i ddiystyrwch cyffredinol o'r Côd, wedi dangos nad oedd yn addas i ddal swydd gyhoeddus a'i fod yn annhebygol o fod yn addas dros y 5 mlynedd nesaf. | O'r herwydd, dylid ei anghymwyso i fod yn aelod, neu i ddod yn aelod, o Gyngor Cymuned Coedpoeth neu unrhyw awdurdod perthnasol arall o fewn ystyr Deddf Llywodraeth Leol 2000. |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| Cyng.John Cooper<br><br>**Apêl**<br><br>Cyngor Cymuned Y Mwmbwls<br><br>APW/009/2012-013/A | Yr honiadau oedd bod y Cynghorydd Cooper wedi torri Côd Ymddygiad Cyngor Cymuned y Mwmbwls trwy wneud datganiadau camarweiniol am ei asedau personol i Dribiwnlys Cyflogaeth pan oedd y Tribiwnlys hwnnw yn ystyried ei atebolrwydd am gostau.<br><br>Honnwyd bod y Cynghorydd Cooper, oherwydd ei fod wedi methu â datgan maint ei asedau, wedi camarwain y Tribiwnlys Cyflogaeth ynglyn â'i allu i dalu unrhyw gostau a ddyfarnwyd yn ei erbyn. | Ar sail canfyddiad o ffaith, casglodd y Tribiwnlys Apêl yn unfrydol fod methiant i gydymffurfio gyda Chôd Ymddygiad Cyngor Cymuned y Mwmbwls.<br><br>Dywed paragraff 6(1)(a) y côd ymddygiad "Rhaid i chi beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid ei hystyried yn rhesymol fel un sy'n dod ag anfri ar eich swydd neu'r awdurdod".<br><br>Roedd y Tribiwnlys Apêl yn fodlon fod y canfyddiad o ffaith fod y Cynghorydd Cooper wedi gwneud datganiadau camarweiniol i'r Tribiwnlys Cyflogaeth yn cyfateb i dorri paragraff 6(1)(a) y Côd.<br>Roedd y Tribiwnlys yn ystyried bod y canfyddiadau a wnaed gan y Tribiwnlys Cyflogaeth fod y Cynghorydd Cooper wedi methu â datgelu asedau, a'r erthygl wedyn yn y South Wales Evening Post, yn dwyn anfri ar swydd Cynghorydd Cymuned a Chyngor Cymuned y Mwmbwls. | Gan hynny, penderfynodd y Tribiwnlys Apêl yn unfrydol i gadarnhau penderfyniad y Pwyllgor Safonau ac y dylid gwahardd y Cynghorydd Cooper rhag bod yn Aelod Etholedig a Chyfetholedig o Gyngor Cymuned y Mwmbwls am gyfnod o 18 wythnos.<br><br>Roedd y Tribiwnlys o'r farn bod hon yn gosb briodol a chymesur i nodi difrifoldeb yr achos a chynnal hyder y cyhoedd o ran safonau mewn bywyd cyhoeddus. |
| Y Cyn Gyng P Heesom<br><br>Cyngor Sir Y Fflint | Torri paragraff 4(a), 4(b), 6(1)(b) a 7(a) o'r cod ymddygiad 2001 a paragraff 4(b), 4 | http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/publications/apw/130830cllrhfindfact.pdf<br><br>Gweler uchod linc i'r ddogfen | Mae'r Gorchymyn a wnaed gan yr uchel Lys ar 20 Awst 20013 i atal yr anghymhwysiad a orfodwyd gan y Tribiwnlys Achos ar 19 Gorffennaf 2013 wedi cael ei ddiddymu gan yr |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| APW/005/2010-011/CT | (c) a 4(d) o'r cod ymddygiad 2008 | Canfyddiadau Ffeithiau. | Uchel Lys trwy Orchymyn dyddiedig 5 Medi 2013.<br><br>Gwahardd am 2 ½ blynedd |
| Y Cyn Gyng David Evans<br><br>Ceredigion County Council<br><br>APW/008/2012-013/CT | Torri paragraff 6(1)(a), 7(a) a 9(a) y cod ymddygiad drwy hawlio treuliau nad oedd ganddo hawl i'w cael | Ystyriodd Tribiwnlys yr Achos holl ffeithiau'r achos ac yn benodol y ffaith bod Mr Evans, ar gais, wedi ad-dalu'r treuliau a orhawliwyd yn brydlon. Ystyriodd Tribiwnlys yr Achos hefyd y ffaith bod gweithdrefnau'r Cyngor yn ystod y cyfnod perthnasol sy'n ymwneud â threuliau cynghorwyr, yn ôl ei gyfaddefiad ei hun, wedi methu â chyrraedd y safon y mae gan y cyhoedd yr hawl i'w disgwyl. | Gwahardd am 3 mis |

**Panel Dyfarnu Cymru – Crynodeb o benderfyniadau diweddar**

1. **Cyn Gynghorydd David Evans - PDC/008/2012-013/CT – 12/07/2013**

| **Crynodeb o'r Ffeithiau** | **Crynodeb o'r penderfyniad** | **Darpariaethau perthnasol o'r côd** | **Cosb a ddarparwyd** |
|---|---|---|---|
| Yr honiadau oedd bod Mr. Evans wedi torri Côd Ymddygiad Cyngor Sir Ceredigion drwy hawlio costau nad oedd ganddo hawl iddynt drwy or-nodi ei hawliadau milltiroedd a chynhaliaeth dros gyfnod o 11 mlynedd.<br><br>Mabwysiadodd y Cyngor gynllun aelodau ar gyfer 2004/05 a oedd yn cynyddu lwfans y cadeirydd i swm oedd yn cynnwys costau teithio.<br><br>Hawliodd Mr. Evans wedyn gostau teithio am drip i Ddulyn a thrip i Belfast, ac roedd y ffurflen hawlio'n cynnwys taith hedfan ychwanegol i'w wraig a hynny'n groes i'r cynllun newydd nad oedd yn caniatáu i gostau teithio gael eu hawlio yn ychwanegol at lwfans y cadeirydd. | Canfu'r Tribiwnlys Achos trwy benderfyniad unfrydol bod methiant i gydymffurfio â Chôd Ymddygiad Cyngor Sir Ceredigion.<br><br>Ystyriodd y Tribiwnlys holl ffeithiau'r achos ac yn arbennig, y ffaith bod Mr. Evans, pan ofynnwyd iddo, wedi talu yn ôl y costau a or-hawliwyd ar unwaith.<br><br>Cymerodd y Tribiwnlys i ystyriaeth hefyd y ffaith nad oedd gweithdrefnau'r Cyngor ei hun o ran costau Cynghorwyr yn ystod y cyfnod perthnasol ac yn ôl cyfaddefiad y Cyngor ei hun, wedi cwrdd â'r safon yr oedd gan y cyhoedd hawl i'w disgwyl. | Torri paragraffau 6(1)(a), 7(a) a 9(a) y côd ymddygiad<br><br>**Paragraff 6(1)(a)** *"You must not conduct yourself in a manner which could reasonably be regarded as bringing your office or authority into disrepute."*<br><br>Canfu'r Tribiwnlys bod Mr. Evans wedi torri'r côd ymddygiad trwy or-nodi ei hawliadau milltiroedd a chynhaliaeth a'i fod, drwy wneud hynny, wedi dwyn anfri ar ei swydd ac / neu ei awdurdod.<br><br>**Paragraff 7(a)** *"You must not in your official capacity or otherwise, use or attempt to use your position improperly to confer on or secure for yourself, or any other person, an advantage or* | Wedi'i atal am 3 mis |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | *create or avoid for yourself, or any other person, a disadvantage."*<br><br>Roedd y Tribiwnlys o'r farn bod Mr. Evans wedi torri'r côd ymddygiad trwy or-nodi ei gostau milltiroedd a chynhaliaeth a'i fod, o ganlyniad wedi sicrhau mantais amhriodol iddo'i hun.<br><br>Paragraff 9(a) y côd - *"You must observe the law and your authority's rules governing the claiming of expenses and allowances in connection with your duties as a member."*<br><br>Roedd Tribiwnlys yr achos o'r farn bod Mr. Evans wedi methu â glynu wrth reolau'r Awdurdod ynglŷn â threuliau a'i fod o ganlyniad wedi torri'r côd ymddygiad trwy or-nodi ei hawliadau milltiroedd a chynhaliaeth. | |

2. **Y Cynghorydd P Heesom – PDC/005/2010-011/CT**

| **Crynodeb o'r Ffeithiau** | **Crynodeb o'r penderfyniad** | **Darpariaethau perthnasol o'r côd** | **Cosb a ddarparwyd** |
|---|---|---|---|
| Yr honiadau oedd bod Mr. Heesom wedi tori Côd Ymddygiad Cyngor Sir Y Fflint trwy fod yn anghwrtais gyda swyddogion.<br><br>Yn ystod Cyfarfod Sgriwtini roedd yr Atebydd wedi disgrifio rheolaeth yr Adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion fel "shambles" a "shambolic".<br><br>Ar ddiwedd y cyfarfod, dywedodd yr Atebydd bod yr Awdurdod wedi cael gwared ar nifer o reolwyr yn yr Awdurdod ac y byddai mwy yn mynd.<br><br>Roedd hefyd yn ddigywilydd ac yn fygythiol tuag at swyddog iau a oedd yn teimlo bod ei ymddygiad yn ymosodol a bygythiol ac a oedd wedi cymryd ato gan ei ymddygiad. Dywedodd Mr. Heesom ymhellach wrth aelod arall yn Ystafell yr Aelodau<br><br>*" (an officer) is shit at her job."*<br><br>..ac roedd wedi dweud wrth uwch swyddog am swyddog arall "knew nothing about Housing" and "her days are numbered." | Penderfynodd y Tribiwnlys yn unfrydol y dylai'r Cynghorydd Heesom gael ei atal am ei weithrediadau o ganlyniad i dorri'r côd ymddygiad ar 14 achlysur.<br><br>Mae'n ddiddorol nodi bod y Tribiwnlys wedi penderfynu bod sylw Mr. Heesom bod yr Adran Gofal Cymdeithasol Oedolion yn "shambles" ac yn "shambolic" o fewn Erthygl 10 - diogelu rhyddid i lefaru - oherwydd ei fod yn cyfateb i "ddatganiad gwleidyddol". | Toriad honedig - paragraffau 4(a), 4 (b), 6 (1) (b) a 7(a) o gôd ymddygiad 2001 a pharagraffau 4(b), 4 (c) a 4(d) o gôd ymddygiad 2008.<br><br>Yr ymddygiad a dorrwyd:<br><br>**4(a)** – methiant i ddangos parch ac ystyriaeth i eraill, a<br><br>*Ysgrifennu llythyr amhriodol at denant tŷ Cyngor ar 9 Awst 2007 (torri paragraff 4 (a)).*<br><br>**4(b)** – ymddygiad sy'n rhagfarnu, neu sy'n debygol o ragfarnu, didueddrwydd gweithwyr yr awdurdod).<br><br>*Roedd ei ymdrechion i ddylanwadu ar y broses o osod tai Cyngor yn ymddygiad oedd yn niweidiol, neu oedd yn debygol o fod yn niweidiol i ddidueddrwydd gweithwyr.* | Wedi'i atal am 2 ½ mlynedd.<br><br>Cynhaliwyd apêl yn yr Uchel Lys lle penderfynwyd y dylai'r gosb wreiddiol sefyll. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **4(c)** –bwlio / hambygio.<br><br>*Ymddygiad tuag at swyddogion.*<br><br>6(1)(b) – dwyn anfri ar swydd aelod neu ar yr awdurdod).<br><br>*Llythyrau a anfonwyd at denantiaid y Cyngor.* | |

# Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | **12 Rhagfyr 2013** |
| **Teitl yr Adroddiad** | **Cyn-Gofrestur Diddordebau – Diweddaraidau gan Gynghorwyr Sir** |
| **Adroddiad Gan** | **Swyddog Gofal Cwsmer** |
| **Pwrpas yr Adroddiad** | **I ddiweddaru'r Pwyllgor ar y Cofrestr Diddordebau'r Cynghorwyr Sir.** |

## 1.0 Rhagarweiniad

Bob blwyddyn, mae'r Pwyllgor Safonau yn adolygu'r Gofrestr Diddordebau "sefydlog" ac am y tair blynedd ddiwethaf, mae'r Pwyllgor wedi nodi methiant gan rhai Aelodau Etholedig i ddiweddaru eu cofrestriad o ran penodiadau i gyrff allanol. Mae'r methiant hyn yn gyfystyr a thorri'n Cod Ymddygiad ac er nad yw, mae'n debyg, ond yn torri'n Cod mewn modd technegol un unig, mae'n golygu fod Aelodau nad ydynt yn cydymffurfio yn agored i gael eu beirniadu.

Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 12 Medi 2013 yn nodi bod 7 o'r Cynghorwyr heb ddiweddaru eu cofrestrau ond erbyn dyddiad y cyfarfod roedd y rhif i lawr i 3 ac argymhelliad y Pwyllgor oedd ysgrifennu atynt yn gofyn iddynt ddiweddaru eu cofrestrau o fewn 7 diwrnod o dderbyn y llythyr.

## 2.0 Y Sefyllfa Gyfredol

Ar 13 Medi 2013 cafodd y Swyddog Gofal Cwsmer wybod gan Dim Y We bod y 3 Aelod wedi diweddaru eu Cofrestrau ac felly roedd pob un o'r 30 Aelodau Etholedig wedi diweddaru eu Cofrestrau o ran penodiadau i gyrff allanol.

Mae Tîm y We bellach yn hysbysu'r Swyddog Gofal Cwsmer yn awtomatig trwy e-bost pob tro y bydd Cofrestr yn cael ei ddiweddaru ac felly mae'n bosib cadw ffeil swyddfa o Gofrestrau Aelodau yn gyfredol.

## 3.0 Casgliad

Gan fod cydymffurfiaeth lawn ar hyn o bryd, ni welaf reswm i gyflwyno adroddiadau pellach ar y mater.

This page is intentionally left blank

# Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **12 Rhagfyr 2013** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Cynghorau Tref a Chymuned – Diweddardiad ar Ymrwymiadau Côd Ymddygiad** |
| **ADRODDIAD GAN** | **Swyddog Gofal Cwsmer** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar y nifer o Gynghorau Tref a Chymuned sydd wedi darparu gwybodaeth ynglŷn ag ymrwymiadau Cynghorwyr yn dilyn y tymor newydd mewn swydd a ddechreuodd ym Mai 2013** |

**1.0 Rhagarweiniad**

Anfonwyd llythyr at yr holl Gynghorau Tref a Chymuned ar 25.4.13 yn gofyn iddynt ddarparu'r canlynol:-

"copïau o'r HOLL ymrwymiadau a gwblhawyd ac a gyflwynwyd gan eich Cynghorwyr newydd a'r rhai oedd yn dychwelyd, yn addo glynu wrth Cod ymddygiad yn ystod eu tymor newydd yn eu swyddi o Fai 2013".

Yn dilyn ymateb araf iawn, fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor ym mis Mehefin, anfonwyd llythyr arall dyddiedig 13.6.13 ac erbyn y cyfarfod ym mis Medi roedd pob Cyngor ond un wedi ymateb.

**2.0 Canlyniadau**

2.1 Bellach, mi fedraf gadarnhau bod y Cynghorau I GYD wedi ymateb ac wedi darparu copiau o'r ymrwymiadau. Mae rhai Cynghorau wedi recriwtio aelodau newydd ac meant yn gyrru copiau o'r ymrwymiadau newydd hefyd.

2.2 Mae'r copiau o'r ymrwymiadau yn cael eu cad war y ffeil perthnasol ynyr Adran Gyfreithiol.

**3.0 Casgliad**

Nid oes angen unrhyw adroddiad na gweithred bellach gan fod pob Cyngor Tref a Chymuned wedi cydymffurfio gyda'r gofyniad ac yn dal i wneud hynny.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD:** | **12 RHAGFYR 2013** |
| **TEITL:** | **SESIYNAU HYFFORDDI AR GYFER CYNGHORAU TREF A CHYMUNED AR Y CÔD YMDDYGIAD** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **DERBYN RHAGOR O GYFARWYDDIADAU GAN Y PWYLLGOR SAFONAU** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH SWYDDOGAETH (BUSNES Y CYNGOR) / SWYDDOG MONITRO** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **LYNN BALL PENNAETH SWYDDOGAETH (BUSNES Y CYNGOR) / SWYDDOG MONITRO (est 2586)** |

## 1. RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR

Rôl y Pwyllgor Safonau yw hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad ymysg Aelodau a'u cynorthwyo i lynu wrth y Côd Ymddygiad. Rhoddir pwyslais mawr ar hyfforddiant ac i'r perwyl hwn trefnwyd pedair sesiwn hyfforddi ym mis Medi 2013 yn benodol ar gyfer Cynghorwyr Tref a Chymuned.

Mae'r adroddiad hwn yn adolygu'r lefelau mynychu ac yn gwneud cynigion ar gyfer y camau y mae angen eu cymryd yn awr ac ar gyfer digwyddiadau hyfforddi i'r dyfodol.

## 2. PRESENOLDEB YN Y SESIYNAU HYFFORDDI

